O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2022 Rhif (Cy. )

# PENSIYNAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYMRU

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i [Fil Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol] er mwyn trosglwyddo holl aelodau Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) ("Cynllun 1992") a Chynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) ("Cynllun 2007") i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Cynllun 2015") o 1 Ebrill 2022.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 sy'n nodi Cynllun 2015.

Mae rheoliad 2(2)(a) yn darparu mai'r diffiniad o "dyddiad cau" yn Atodlen 2 (sef diwrnod olaf aelodaeth o Gynllun 1992 neu Gynllun 2007) yw 31 Mawrth 2022 ar gyfer aelodau a ddiogelir yn llawn.

Mae rheoliad 2(2)(b) yn diwygio'r diffiniad o "dyddiad trosiant" yn Atodlen 2 er mwyn pennu mai diwrnod cyntaf aelodaeth o Gynllun 2015 yw 1 Ebrill 2022 ar gyfer aelodau a ddiogelir yn llawn.

Mae rheoliad 2(3) yn cael gwared ar y pŵer i reolwyr cynllun bennu dyddiad dod i ben ar gyfer diogelwch taprog ar ôl 31 Mawrth 2022, ac yn pennu bod rhaid i bob cyfnod o ddiogelwch taprog ddod i ben ar y dyddiad hwn neu cyn hynny.

Mae rheoliad 2(4) yn ganlyniadol i reoliad 2(2)(a) ac mae'n darparu y bydd aelodau a ddiogelir yn llawn o Gynllun 1992 neu Gynllun 2007 yn peidio â bod yn aelodau o'r cynlluniau hynny ar 31 Mawrth 2022.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2022 Rhif (Cy. )

# PENSIYNAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYMRU

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *** |
| *Yn dod i rym* | *30 Mawrth 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1(1) a (2)(f), 2(1)(**1**) a 3(1) a (2)(c) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 ("Deddf 2013")(**2**).

Yn unol ag adran 21 o Ddeddf 2013(**3**), mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny (neu â chynrychiolwyr y personau hynny) y mae'n ymddangos yn debygol i Weinidogion Cymru y bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt.

Yn unol ag adran 3(5) o Ddeddf 2013, gwneir y Rheoliadau hyn gyda chydsyniad y Trysorlys.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Mawrth 2022.

---

(**1**) Gweler hefyd baragraff 6(b) o Atodlen 2.
(**2**) 2013 p. 25. Diwygiwyd adran 3 gan adran [79(2) i (6)] o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 [p. xx].
(**3**) Diwygiwyd adran 21 gan adran [79(7)] o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022.

**Diwygiadau i Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015**

**2.**—(1) Mae Atodlen 2 i Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015(**1**) (darpariaethau trosiannol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1 (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o “dyddiad cau”, ym mharagraff (c), yn lle “aelod hwnnw, neu” hyd at y diwedd rhodder—

“aelod hwnnw,

(ii) os yw’r aelod yn aelod diogelwch llawn o Gynllun 1992 neu o CPNDT, 31 Mawrth 2022, neu

(iii) os nad yw’r aelod yn aelod a ddiogelir o un o’r cynlluniau hynny, dyddiad cau’r cynllun.”;

(b) yn y diffiniad o “dyddiad trosiant”, yn lle “aelod hwnnw, a” hyd at y diwedd rhodder—

“aelod hwnnw,

(b) os yw’r aelod yn aelod diogelwch llawn o Gynllun 1992 neu o CPNDT, 1 Ebrill 2022, ac

(c) os nad yw’r aelod yn aelod a ddiogelir o Gynllun 1992 neu o CPNDT, y diwrnod ar ôl dyddiad cau’r cynllun, neu, os yw’n ddiweddarach, y diwrnod y peidiodd y person â bod yn aelod a ddiogelir o’r cynllun hwnnw.”

(3) Yn lle is-baragraff (3) o baragraff 3 (ystyr “dyddiad cau diogelwch taprog”) rhodder—

“(3) Y dyddiad cau diogelwch taprog ar gyfer aelod diogelwch taprog o CPNDT y mae paragraff 9(5) neu 21 yn gymwys iddo yw—

(a) 31 Mawrth 2022; neu

(b) dyddiad cynharach a benderfynir gan y rheolwr cynllun.”

(4) Yn lle is-baragraff (2) o baragraff 9 (aelodau diogelwch llawn o Gynllun 1992 neu CPNDT) rhodder—

“(2) Mae P yn peidio â bod yn aelod diogelwch llawn o Gynllun 1992 neu o CPNDT, yn ôl y digwydd—

(a) ar 31 Mawrth 2022; neu

(b) os yw’n gynharach, pan fo P yn peidio â bod mewn gwasanaeth pensiynadwy o dan y cynllun hwnnw ac yn peidio â bod yn gymwys i fod yn aelod actif o

(**1**) O.S. 2015/622 (Cy. 50), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

CPNDT, onid yw is-baragraff (3) neu (4) yn gymwys."

*Enw*
[Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol], o dan awdurdod [y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol], un o Weinidogion Cymru
Dyddiad